# CYD-BWYLLGOR AMLOSGFA MARGAM

**(*Gweithredu Gydag Awdurdod Cyflawn*)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Iau, 14 Mawrth 2024**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd E.V.Latham** |
| **Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot:** | **Cynghorydd** W.Carpenter, A.Dacey, R.G.Jones a/ac S.Jones |
| **Yn cynrychioli Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr:** | **Cynghorydd** P.Davies a/ac M.Kearn |
| **Swyddogion yn bresennol:** | C.Griffiths, C.Phillips, S.Brennan, C.Langdon, H.Jones a/ac C.Plowman |

---

1. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2024 fel cofnod cywir.

3. **EITEMAU BRYS**

   Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

4. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

   **PENDERFYNWYD:**

   Yn unol ag Adran 100A(4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y cyhoedd o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau tebygol o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 o Ran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

## 5. AILSTRWYTHURO RHEOLWYR YNG NGHYNGOR CASTELL-NEDD PORT TALBOT A PHENODI CLERC CYD-BWYLLGOR AMLOSGFA MARGAM (EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 12 A 13)

Darparwyd adroddiad i'r Pwyllgor ynghylch ailstrwythuro rheolwyr yng Nghyngor Castell-nedd Port Talbot, a oedd wedi arwain at ail-benodi Clerc ar gyfer Cyd-bwyllgor Amlosgfa Margam.

Yn dilyn y drafodaeth, cyflwynwyd diwygiad mewn perthynas ag argymhelliad C, a gynhwyswyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, ac fe'i cefnogwyd gan y Pwyllgor. Cafodd yr argymhellion eu cymeradwyo fel a ganlyn:

**PENDERFYNWYD:**

Y bydd y Cyd-bwyllgor yn:
(a) Nodi'r newid mewn portffolios rheoli yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a fydd yn gweld Amlosgfa Margam yn trosglwyddo o Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y Cyngor i'r Pennaeth Gofal Strydoedd;

(b) Nodi ymddiswyddiad Clerc presennol Cyd-bwyllgor Amlosgfa Margam ar gyfer y rhesymau a nodwyd yn y llythyr dyddiedig 31 Mawrth 2024;

(c) Penodi Mr James Davies fel Clerc Cyd-bwyllgor Amlosgfa Margam o 1 Ebrill 2024 ar gyfer cyfnod dros dro o 9 mis calendr, gydag adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor ym mis Ionawr 2025 i ystyried effaith y newidiadau a wnaed, yr effaith ar ddarpariaeth gwasanaeth ac yna, os yw'n briodol, benodi Mr Davies fel clerc parhaol.

**CADEIRYDD**